Prifysgol Abertawe
Swansea University

**Disgrifiad Swydd: Swyddi Gwasanaethau Proffesiynol**

| | |
|---|---|
| **Coleg/Ysgol:** | Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe |
| **Teitl y Swydd:** | Technegydd Labordy Ymchwil - Y Ganolfan Niwrotherapïau Uwch (ANTC) |
| **Adran/Pwnc:** | Niwrowyddoniaeth / Gwyddorau Biofeddygol / Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe |
| **Cyflog:** | Gradd 05 £26,338 – £29,179 y flwyddyn, ynghyd â buddion pensiwn NEST |
| **Oriau gwaith:** | 14 awr yr wythnos (40% CALl) |
| **Contract:** | Am gyfnod penodol tan 31 Mawrth 2028 |
| **Lleoliad:** | Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Singleton |

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | Gwahoddir ceisiadau am dechnegydd labordy (ymchwil) mewn niwrowyddoniaeth. Ariennir y swydd hon fel rhan o 'Ganolfan Niwrotherapïau Uwch' (ANTC) Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Bydd deiliad y swydd yn cefnogi prosiectau ymchwil niwrowyddoniaeth traws-ddisgyblaethol, gan ganolbwyntio ar Sglerosis Ymledol (MS) a chyflyrau niwrolidiol. |
| **Gwybodaeth gefndirol** | Mae'r ANTC yn gyfleuster ymchwil yng Nghymru a weinyddir gan Brifysgol Caerdydd (a elwid gynt yn uned BRAIN), ac sy'n ymrwymedig i ddatblygu a darparu triniaethau ar gyfer cyflyrau niwrolegol cymhleth. Mae'r ANTC yn Abertawe yn llif gwaith cydweithredol sy'n canolbwyntio ar ddarparu biofarcwyr newydd, genynnau a niwropatholeg i ddatod heterogenedd biolegol clefydau niwroddirywiol a niwrolidiol.<br>Mae ymchwil niwrowyddoniaeth yn Abertawe yn cynnwys uwch-ymchwilwyr, ymchwilwyr a darlithwyr sy'n gweithio i ddeall sylfeini biolegol ystod o glefydau niwroddirywiol a niwrolidiol.<br>Byddwch yn rhyngweithio â'r Prif Ymchwilydd, ymchwilwyr ôl-ddoethurol a myfyrwyr ôl-raddedig ac yn darparu cymorth labordy a thechnegol ar gyfer prosiectau sy'n archwilio sylfeini biolegol niwrogemegol a chellol clefydau, megis sglerosis ymledol, clefyd Parkinson ac Alzheimer. Byddwch yn gweithio gyda chydweithwyr ledled yr adran i hwyluso astudiaethau cydweithredol parhaus a newydd. Byddwch yn ymdrin â samplau clinigol a phost-mortem mewn prosiectau gan ddefnyddio technegau staenio meinweoedd, morffometreg feintiol a dadansoddi hylif (hylif yr ymennydd (CSF) a serwm). Bydd y swydd hon yn ddelfrydol ar gyfer myfyriwr graddedig brwdfrydig sy'n llawn cymhelliant ym meysydd biofeddygol, sydd ag uchelgeisiau i ddatblygu ei brofiad labordy mewn ymchwil i niwrowyddoniaeth. |
| **Prif Ddiben y Swydd** | 1. Cefnogi cydweithrediadau â'r ANTC a phrosiectau parhaus eraill yn y labordy.<br>2. Datblygu a defnyddio eich sgiliau labordy o ran torri meinweoedd, imiwnostaenio a/neu ddadansoddi protein.<br>3. Cynorthwyo wrth gasglu a dadansoddi data o garfannau clinigol a phost-mortem, gan ganolbwyntio ar brosesau biolegol sy'n sylfaen i ddatblygiad Sglerosis Ymledol.<br>4. Trin a pharatoi samplau o feinweoedd dynol sefydlog a rhai newydd eu rhewi, sy'n addas ar gyfer ymchwil.<br>5. Defnyddio technegau imiwnostaenio a chroesrywedd in situ ar samplau sydd wedi'u paratoi.<br>6. Gwneud gwaith dadansoddi microsgopeg 'brightfield' a fflworoleuedd (epi-fflworoleuedd a chydffocal).<br>7. Cipio data ac ymdrin yn briodol ag ef gan ddefnyddio Excel a phecynnau dadansoddi ystadegol.<br>8. Ysgrifennu a chynnal cofnodion cywir o'r ymchwil a gynhelir.<br>9. Cyfathrebu a chyflwyno canlyniadau ymchwil yn y grŵp ymchwil, mewn cyfarfodydd a thrwy lwybrau eraill a gydnabyddir, fel y bo'n briodol.<br>10. Sicrhau y caiff offer labordy ei ddefnyddio'n gywir a monitro ymweithredyddion ac archebu eitemau newydd pan fo angen.<br>11. Sicrhau bod eich gwybodaeth am y maes yn gyfredol, drwy gyfrwng trafodaethau a darllen llenyddiaeth berthnasol. |

| | |
|---|---|
| | 12. Darparu arweiniad technegol mewn perthynas â'r ymchwil, a'r technegau a ddefnyddir, i aelodau eraill o staff yn y grŵp ymchwil. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 1. Cyfrannu'n llawn at bolisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol.<br>2. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>3. Arwain y gwaith o wella perfformiad iechyd a diogelwch yn barhaus trwy ddealltwriaeth dda o'r proffil risg a datblygu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.<br>4. Unrhyw ddyletswyddau eraill y gellir eu disgwyl o fewn diffiniad y radd yn unol â chyfarwyddyd Pennaeth y Coleg/Adran neu gynrychiolydd a enwebwyd.<br>5. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o'ch gweithgareddau beunyddiol i sicrhau bod arferion gwaith yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol. |
| **Gwerthoedd y Gwasanaethau Proffesiynol** | Mae'r holl feysydd Gwasanaethau Proffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithredu yn ôl cyfres ddiffiniedig o Werthoedd Craidd - Gwerthoedd Gwasanaethau Proffesiynol - a disgwylir i bawb allu dangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o'r adeg cyflwyno cais am swydd i gyflawni eu rolau o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym.<br><br>**Rydym yn Broffesiynol**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn defnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau, ein creadigrwydd, ein gonestrwydd a'n doethineb i ddarparu gwasanaethau arloesol, effeithiol ac effeithlon ynghyd ag atebion o safon ardderchog<br><br>**Rydym yn Cydweithio**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn amgylchedd gweithio rhagweithiol a chydweithredol o gydraddoldeb, ymddiriedaeth, parch, cydweithio a her, i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.<br><br>**Rydym yn Ofalgar**<br>Rydym yn cymryd cyfrifoldeb am wrando ar ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd, eu deall ac ymateb yn hyblyg iddynt, fel bod pob cysylltiad rhyngddynt a ni yn brofiad personol a chadarnhaol.<br><br>Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym. |
| **Manyleb Person** | **Meini Prawf Hanfodol:**<br>**Cymwysterau:**<br>Safon Uwch neu gyfwerth yn y gwyddorau; cymhwyster proffesiynol perthnasol neu brofiad labordy cyfwerth yn y biowyddorau.<br><br>**Profiad:**<br>Profiad labordy mewn cyfleuster ymchwil biofeddygol, yn ddelfrydol mewn ymchwil i niwrowyddoniaeth neu sbectrometreg màs.<br><br>**Gwybodaeth a Sgiliau:**<br><br>1. Tystiolaeth o sgiliau cynllunio a'r gallu i weithio yn unol ag amcanion y prosiect.<br>2. Brwdfrydedd am ymchwil fiofeddygol a niwrowyddoniaeth.<br>3. Sgiliau TG, gan gynnwys pob pecyn Microsoft Office.<br>4. Y gallu i gyfleu ei waith i gymheiriaid a chydweithwyr uwch.<br>5. Sgiliau cyfathrebu ardderchog yn ysgrifenedig ac ar lafar.<br>6. Y gallu i ddilyn gweithdrefnau penodedig a phrotocolau yn fanwl. |

| | |
|---|---|
| | 7. Y gallu i ddadansoddi a chyflwyno data gan ddefnyddio pecynnau meddalwedd priodol.<br><br>**<u>Meini Prawf Dymunol:</u>**<br>1. BSc neu MSc mewn pwnc sy'n gysylltiedig â'r Biowyddorau.<br>2. Bod yn gyfarwydd â meddalwedd prosesu delweddau.<br>3. Profiad ymchwil mewn niwrowyddoniaeth.<br><br>**Gwerthoedd:**<br>• Tystiolaeth o ymfalchïo mewn darparu gwasanaethau ac atebion proffesiynol<br>• Y gallu i gydweithio mewn amgylchedd o gydraddoldeb, ymddiriedaeth a pharch i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.<br>• Tystiolaeth o ymagwedd ofalgar at eich holl gwsmeriaid, gan sicrhau profiad personol a chadarnhaol. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Dr Owain Howell o.w.howell@abertawe.ac.uk |